OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1188 (Cy. 209) (C. 79)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2023

*Gwnaed - - - - 8 Tachwedd 2023*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 19(5) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2023.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 21 Tachwedd 2023**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 i rym ar 21 Tachwedd 2023—

(a) adran 15(1), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau ym mharagraffau (b) ac (c);

(b) adran 15(3)(a), (c)(ii) a (d);

(c) adran 15(4).

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

8 Tachwedd 2023

(**1**) 2023 p. 53.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Y Rheoliadau hyn yw'r rheoliadau cychwyn cyntaf sydd wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023"). Mae rheoliad 2 yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn adran 15 o Ddeddf 2023 mewn perthynas â'r lluosydd ardrethu annomestig yng Nghymru ar 21 Tachwedd 2023.